RHIFYN
ISSUE
48
27.05.22

Llais Llantrisant

EISTEDDFOD YR URDD 2022

URDD EISTEDDFOD 2022

Pob lwc a dymuniadau gorau i TM a GM a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Sir Ddinbych yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.

Good luck and best wishes to TM and GM who will be competing in the Urdd National Eisteddfod, Denbighshire, during the Whitsun half term break.





Llongyfarchiadau mawr i BD wedi iddi ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth CogUrdd eleni. Rwy'n siwr fod y teulu i gyd yn edrych ymlaen at gael prydau bwyd blasus bob nos! Pob lwc yn Sir Ddinbych, BD!

Congratulations to BD having come first on the CogUrdd competition this year. I'm sure that the whole family is looking forward to having tasty home-cooked meals every night! Good luck in Denbighshire, BD!





DYDDIADAU ALLWEDDOL

KEY DATES

06.06.22 - Ymweliad Blwyddyn 5 â 'Noah's Ark Zoo Farm'
Year 5 visit 'Noah's Ark Zoo Farm'
07.06.22 - Ymweliad Blwyddyn 3 â 'Noah's Ark Zoo Farm'
Year 3 visit 'Noah's Ark Zoo Farm'
14.06.22 - Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Llanhari
Year 6 visit Ysgol Llanhari
17.06.22 - Diwrnod HMS - dim ysgol i'r plant
INSET Day - no school for the children
27.06.22 - Wythnos y Mabolgampau
Week of all Sports Days

CYNGHERDDAU TYMOR YR HAF

SUMMER CONCERTS

Fel y gwyddoch, mae'r plant yn edrych ymlaen at groesawu cynulleidfaoedd i neuadd yr ysgol ar gyfer eu perfformiadau penigamp fis Gorffennaf. Cadwch lygad ar agor am eich gwahoddiadau a fydd yn cael eu he-bostio a SchoolAppio(!) atoch yn fuan. Fel yr eglurwyd yn ein llythyr blaenorol, mae dau docyn i bob teulu a byddwch yn derbyn gwahoddiad i berfformiad eich plentyn hynaf os ydynt yn cymryd rhan yn yr un cynhyrchiad. Bydd y dyddiadau a'r amseroedd ar frig y gwahoddiad i archebu eich seddi.

As you already know, the children are looking forward to welcoming audiences to the school hall for their magnificent performances in July. Please keep an eye open for your invitations which will be emailed and SchoolApp'ed to you shortly. As explained in our previous letter, there are two tickets per family and you will receive an invitation to the performance of your oldest child should they be taking part in the same production. The dates and times will be at the top of the invitation to book your seats.

11.07.22	**9:30 y.b.** *9:30 a.m.*	**Meithrin** *Nursery*	**11.07.22**	**1:30 y.p.** *1:30 p.m.*	**Derbyn** *Reception*
12.07.22	**9:30 y.b.** *9:30 a.m.*	**Blwyddyn 1** *Year 1*	**12.07.22**	**1:30 y.p.** *1:30 p.m.*	**Blwyddyn 2** *Year 2*
18.07.22	**9:30 y.b.** *9:30 a.m.*	**Blwyddyn 3** *Year 3*	**18.07.22**	**1:30 y.p.** *1:30 p.m.*	**Blwyddyn 4** *Year 4*
20.07.22			**20.07.22**	**1:30 y.p.** *1:30 p.m.*	**Blwyddyn 5** *Year 5*
21.07.22			**21.07.22**	**1:00 y.p.** *1:00 p.m.*	**Blwyddyn 6** *Year 6*

ABSENOLDEBAU

ABSENCES



Hoffem atgoffa rhieni / gwarcheidwaid fod angen ffonio'r ysgol a gadael neges ar y system os bydd eich plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm. Byddai hyn yn ein harbed ni rhag gorfod anfon neges destun atoch chi bob tro y bydd plentyn yn absennol. O 06.06.22, ac yn unol â pholisi RhCT, byddwn yn ail-ddechrau'r system o gysylltu â'n Swyddog Mynychu ac Ymgysylltu yn Y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i ymweld â chartrefi os na fydd eglurhad gan yr ysgol o unrhyw absenoldeb.

We should like to remind parents / carers of the need to telephone school and leave a message on the system should your child(ren) be ansent from school for any reason. This would help us from having to send a text message each time a pupil is absent without a reason given. From 06.06.22, and in line with RCT policy, we shall recommence the process of contacting our Attendance and Wellbeing Officer in the Attendance and Wellbeing Department to make home visits should we receive no explanation of a pupil absence.

IARD FEDDAL DOSBARTH 1

CLASS 1's SOFT YARD

Gyda diolch i gwmni 'Flourish' a'r Awdurdod Lleol, mae plant bach Dosbarth 1 wedi cael canopi newydd iard feddal newydd i chwarae arni! Maent wrth eu boddau!

With thanks to 'Flourish' and the Local Auhtority, the children of Class 1 have had a new canopy and soft yard to play on! They are over the moon with it!







HMS 2021-2022

INSET 2021-2022

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

03.09.21	28.02.22
25.04.22	05.05.22
17.06.22	08.07.22

MABOLGAMPAU'R YSGOL

SCHOOL SPORTS DAYS

Edrychwn ymlaen at gynnal boreau Mabolgampau ar gae'r ysgol unwaith eto gan estyn croeso i'n rhieni ymuno â ni er mwyn cefnogi. Gall unrhyw drefniadau a wneir ynghylch croesawu gwylwyr newid os bydd rhaid. (Opsiwn 2 = os bydd hi'n bwrw glaw yn ystod dyddiadau Opsiwn 1!)

We look forward to holding Sports Day mornings once again on the school field and extending an invite to our parents to join us in support. Any arrangements made regarding inviting spectators are subject to change should need be. (Option 2 = should it rain during the Option 1 dates!)

	Dosbarth 1 a 2 *Class 1 and 2*	Dosbarth 3, 4 a 5 *Class 3, 4 and 5*	Dosbarth 6, 7 ac 8 *Class 6, 7 and 8*	Dosbarth 9 a 10 *Class 9 and 10*
Opsiwn 1 *Option 1*	**27.06.22**	**28.06.22**	**29.06.22**	**30.06.22**
Opsiwn 2 *Option 2*	**04.07.22**	**05.07.22**	**06.07.22**	**07.07.22**

Rasys yn dechrau: 9:30 yb *Races start: 9:30 am*





TAITH NODDEDIG DOSBARTH 9

CLASS 9's SPONSORED WALK

Llongyfarchiadau mawr i blant (a staff!) Dosbarth 9 sydd wedi bod wrthi'n cerdded milltir bob dydd ers mis er mwyn codi arian at elusen y WWF. Llwyddon nhw i gerdded hyd arfordir Cymru yn ystod yr her yma. Maent wedi mabwysiadu rhinoseros ac hefyd wedi casglu dros £150 at yr elusen hyd yn hyn. Sôn am ddisgyblion #egwyddorol a #gwybodus sydd yn helpu'r blaned.

Many congratulations to the children (and staff!) of Class 9 who have been walking a mile each day for a month to raise money towards the WWF charity. The children succeeded in walking the whole length of the Welsh coastline during this challenge. They have adopted a rhinoceros an have also collected over £150 so far for the charity.





RYGBI'R URDD

THE URDD RUGBY

Teithiodd grŵp o fechgyn Blwyddyn 5 a 6 i Ben-y-bont ar 12.05.22 i gymryd rhan mewn twrnamaint rygbi 7 bob ochr a drefnwyd gan yr Urdd. Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn yn ystod y dydd ac roedd eu hymddygiad a'u sbortsmonaeth yn esiampl i bawb!

A group of Year 5 and 6 boys travelled to Bridgend on 12.05.22 to take part in an Urdd 7 a side rugby tournament. The boys played very well during the day and their sportsmanship and behaviour was a credit to our school!

